

## **Placiau Wal Goffa**

### **Telerau ac Amodau**

1. Dim ond placiau a brynwyd drwy Gyngor Sir Ddinbych a gaiff eu gosod ar y waliau. Bydd unrhyw eitemau eraill a roddir ar y waliau neu ynghlwm wrth y waliau yn cael eu symud.
2. Bydd placiau mewn llinellau llorweddol a byddant yn cael eu gosod ar y lle nesaf sydd ar gael.
3. Ni chaniateir cadw lleoedd.
4. Rhaid i waelod y waliau gael eu gadael yn glir. Bydd unrhyw gofrodion neu deyrngedau a gaiff eu gadael yn yr ardaloedd hyn yn cael eu symud gan Gyngor Sir Ddinbych.
5. Bydd enghraifft yn cael ei hanfon i'w chymeradwyo cyn i'r plac gael ei gynhyrchu. Mae'r templed amgaeedig yn dangos maint gwirioneddol y plac ac mae'r geiriad yn enghraifft o gynllun. Gallwch gael unrhyw eiriad a ddewiswch, ond dylech gadw mewn cof, y mwyaf o eiriau sydd ar y plac, y lleiaf o faint y bydd y nodau.
6. Mae'r holl blaciau yn ddu gydag ymylon a sgrïpt aur.
7. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais os ystyrir bod y geiriad yn amhriodol.